Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Nyrsio a Phreswyl Cerrig yr Afon

Ffordd Caernarfon
Y Felinheli
LL56 4NX

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

This report is also available in English

Dyddiad Cyhoeddi

26 Gorffennaf 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Adeilad sengl yw Cerrig yr Afon sy'n sefyll yn ei erddi ei hun ar gyrion pentref y Felinheli. Gall y cartref gynnig llety i hyd at 57 o bobl hŷn y gallai fod angen gofal nyrsio cyffredinol neu ofal personol arnynt. Mae'r llety yn cynnwys 49 o ystafelloedd sengl a phedair ystafell ddwbl. Mae gan bob ystafell gyfleusterau en-suite neu doiledau gerllaw.

Cwmni o'r enw Resicare Ltd yw'r darparwr cofrestredig a Mr David Partington yw'r person a benodwyd yn unigolyn cyfrifol sy'n cynrychioli'r cwmni. Ni fu unrhyw reolwr cofrestredig yn y cartref ers mis Mehefin 2017. Penodwyd rheolwr ar gyfer y gwasanaeth nad yw'n meddu ar y cymhwyster angenrheidiol i'w alluogi i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd. Mae'r rheolwyr a benodwyd yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster hwn ar hyn o bryd.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Bu cynnydd sylweddol o ran ansawdd y gofal yn y cartref a gallu'r gwasanaeth i fodloni gofynion rheoleiddio. Mae rheolaeth gyffredinol y cartref wedi gwella ynghyd â'i arweinyddiaeth glinigol. Mae'r preswylwyr yn derbyn triniaeth yn brydlon. Mae hyfforddiant ymhlith y staff wedi gwella ac mae ysbryd ymhlith y staff gofal yn amlwg wedi gwella. Mae'r holl staff yn y gwasanaeth wedi gweithio'n galed fel tîm i wella ansawdd y gofal yn y cartref.

2. Gwelliannau

- Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg wedi eu cwblhau ar gyfer pawb sy'n byw yn y cartref erbyn hyn, ac mae dymuniadau a dewisiadau pobl wedi cael eu cynnwys yn y cynllun.
- Mae'r uwch dîm rheoli yn parhau i gynorthwyo'r rheolwr a goruchwylio'r systemau a sefydlwyd i wella safonau yn y gwasanaeth.
- Mae rheolaeth y cartref wedi gwella. Mae systemau monitro cadarn ar waith erbyn hyn.
- Bu gwelliant i'r broses o gofnodi faint o hylif y mae pobl yn ei dderbyn ar siartiau. Mae nyrsys yn goruchwylio'r mewnbwn hylif cyffredinol bellach ac yn cymryd camau yn ôl y gofyn.
- Gwelwyd gwelliant i hyfforddiant staff. Mae'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol erbyn hyn a chwblhawyd hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth ac mae rhagor o gyrsiau hyfforddi wedi cael eu trefnu ar gyfer y dyfodol agos.
- Mae'r defnydd o staff wedi gwella yn y cartref. Mae pobl yn cael eu goruchwylio'n briodol erbyn hyn ac yn derbyn gofal prydlon.
- Adolygwyd bwydlenni ac mae dewisiadau o brydau yn cael eu cynnig erbyn hyn.

3. Gofynion ac argymhellion

Ni wnaed unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.

1. Gofal a Chymorth

Crynodeb
Mae pobl yn derbyn gofal priodol gan staff yn y cartref a chan weithwyr amlddisgyblaeth proffesiynol. Mae parhad gofal wedi gwella. Gall pobl fod yn hyderus bod eu hanghenion yn cael eu hystyried a'u deall gan dîm staff sy'n gallu rhagweld anghenion a darparu gofal rhagweithiol.

Ein canfyddiadau
Mae pobl yn derbyn gofal prydlon a phriodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Edrychwyd ar gofnodion gofal yn nodi anghenion pedwar o bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelwyd bod y cofnodion yn gynhwysfawr, gan nodi anghenion gofal yn ogystal â gwybodaeth am yr unigolyn a'i hanes. Roedd cofnodion gofal yn cynnwys asesiadau risg a gwybodaeth i gefnogi anghenion cymhleth a chânt eu hadolygu yn ôl y gofyn. Cadwyd gwybodaeth am yr hyn y mae'r unigolyn yn ei hoffi ac nad yw'n ei hoffi, agweddau ar anghenion gofal, cofnodion gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, a nodiadau ar y gofal a ddarparwyd yn ystod y dydd a'r nos. Roedd y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda phobl a rhoddwyd amser i bobl siarad/cyfathrebu eu hanghenion a'u dymuniadau. Roedd arsylwadau o'r rhyngweithio yn adlewyrchu gwybodaeth sydd wedi ei chofnodi mewn ffeiliau gofal, sy'n dangos bod pobl yn derbyn y gofal priodol, ar yr adeg briodol, ac yn y ffordd y maent yn dymuno ei dderbyn. Gwelsom hefyd fod asesiadau risg yn cael eu hadolygu bob mis a bod arwyddion hanfodol y preswylwyr yn cael eu cofnodi fel ffordd o fonitro eu llesiant cyffredinol. Cadwyd cofnodion faint o hylif a yfwyd yn feunyddiol ac roedd siartiau adleoli wedi eu cwblhau'n gywir ac yn gydamserol er mwyn nodi'r angen am ymyrraeth briodol a phrydlon. Canfuwyd gennym fod adroddiadau beunyddiol ar weithgareddau a llesiant y preswylwyr, a oedd yn cael eu cwblhau gan y nyrsys, yn llawn gwybodaeth yn gyffredinol. Rydym yn dod i'r casgliad o'n canfyddiadau fod y gwasanaeth yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer iechyd a lles y preswylwyr trwy nodi newidiadau i anghenion yn brydlon.

Mae gan bobl fynediad at gymorth arbenigol ar gyfer eu hanghenion meddygol. Yn ystod ein hymweliad â'r cartref, cafodd un o'r preswylwyr ymweliad gan ei feddyg teulu ar ôl i'r staff hysbysu'r feddygfa am newid i'w gyflwr. Archwiliwyd y ffeiliau gofal gennym a chanfuwyd tystiolaeth fod y preswylwyr yn derbyn cymorth rheolaidd gan weithwyr amlddisgyblaeth proffesiynol yn unol â'u hanghenion. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau gan ddietegydd, therapydd lleferydd ac iaith, gweithiwr cymdeithasol, optegydd a deintydd. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod rhai preswylwyr yn mynychu apwyntiadau cleifion allanol yn yr ysbyty fel ffordd o fonitro cyflyrau iechyd cronig. Roedd atgyfeiriadau prydlon yn cael eu gwneud i'r nyrsys hyfywedd meinwe ar gyfer cyngor ac asesiadau. Mae ein canfyddiadau yn dynodi bod y gwasanaeth yn sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal priodol ar yr adeg briodol.

Gall pobl wneud dewisiadau o ran eu gofal a'u trefnau beunyddiol pryd bynnag y bo'n bosibl. Nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf fod angen gwelliannau sylweddol o ran monitro ansawdd prydau bwyd a faint o ddewis a gynigiwyd ganddynt. Roedd prif gogydd newydd wedi cael ei recriwtio a gwelsom fod bwydlen newydd wedi cael ei chyflwyno. Gwelsom y staff yn cynnig dewis o fwyd i'r preswylwyr cyn amser bwyta ac yn cynnig cymorth i wneud penderfyniadau yn ôl yr angen. Roedd diodydd poeth ac oer yn cael eu gweini gydag amrywiaeth o fyrbrydau drwy'r dydd. Canmolwyd y dewis ar y fwydlen newydd gan bobl a dywedasant wrthym fod gwahanol bryd yn cael ei gynnig os nad

oeddent yn hoffi'r hyn a oedd ar gael ar y diwrnod. Cawsom sgwrs gyda phreswylydd a ddywedodd wrthym fod yn well ganddo aros yn ei ystafell wely yn gyffredinol ond ei fod weithiau'n ymuno â'r lleill yn y lolfa ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol. Fe'n hysbyswyd gan y rheolwr penodedig fod yr holl breswylwyr a/neu eu cynrychiolwyr (pan fo'n briodol) yn cael eu gwahodd i drafod anghenion gofal unigol y preswylwyr i sicrhau bod y gofal a oedd yn cael ei ddarparu yn cyd-fynd â'u dymuniadau. Rydym yn dod i'r casgliad fod gan drigolion lais a'u bod yn cael eu galluogi i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal.

2. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae pobl yn elwa o wasanaeth sy'n gwella. Ceir tystiolaeth fod y tîm rheoli yn ysgogi gwelliant parhaus gyda pharodrwydd i ddysgu o arfer gorau, digwyddiadau, ac adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Ein canfyddiadau

Mae systemau cadarn ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth o ran canlyniadau i bobl. Gwelsom dystiolaeth fod yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr penodedig wedi mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd a'n hargymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol. Mae trosolwg ac atebolrwydd yn parhau gan y rheolwr penodedig a'r uwch-dîm. Cyflwynwyd system lywodraethu glinigol sy'n cofnodi digwyddiadau sy'n effeithio ar ofal, a chaiff y wybodaeth ei chrynhoi a'i dadansoddi i ganfod a oes ffyrdd o leihau'r risg i'r preswylydd neu wella ansawdd y gofal a ddarperir. Mae meysydd sy'n cael eu monitro yn cynnwys briwiau pwyso, cwympau, heintiau, digwyddiadau a damweiniau. Mae archwiliadau a welwyd yn yr arolygiad yn dangos bod systemau ar waith i fonitro a gwella safonau yn rhan o reolaeth barhaus y gwasanaeth. Mae hyn, ynghyd â throsolwg y tîm sicrhau ansawdd yn y sefydliad, yn sicrhau system gadarn ar gyfer gwella gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n byw yn y cartref. Codwyd pryder gydag AGC ynghylch y diffyg staff ar ddyletswydd. Roedd y defnydd o staff asiantaeth wedi lleihau ac fe'n hysbyswyd gan y rheolwr penodedig y byddai lefelau staffio yn cynyddu o'r wythnos ganlynol. Parhawyd i ddefnyddio dull dibyniaeth i ganfod nifer y staff yr oedd eu hangen i ddiwallu anghenion a aseswyd pobl a gwnaed hyn yn fisol yn ogystal ag adolygiad rheolaidd o lefelau staffio.

Mae pobl yn derbyn gofal gan staff sy'n addas ar gyfer eu swyddogaethau ac sy'n cael eu cynorthwyo a'u hyfforddi. Cawsom sgyrsiau gyda'r staff gofal, a ddywedodd wrthym ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr penodedig a'i fod yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth iddynt yn eu swyddi. Fe'n hysbyswyd ganddynt fod ysbryd y staff yn dda o ganlyniad. Canfuwyd gennym o drafod gyda'r rheolwr ac archwilio dogfennau perthnasol fod hyfforddiant gorfodol y staff yn gyfredol. Roedd hyn yn cynnwys symud a thrin pobl, diogelu oedolion mewn perygl, diogelwch tân a rheoli heintiau. Roedd cyrsiau hyfforddi ychwanegol ar gael o ran anghenion penodol preswylwyr yn y cartref. Cynhaliwyd goruchwyliaeth staff un i un yn rheolaidd ac yn unol â chanllawiau'r safonau gofynnol cenedlaethol, gan roi cyfleoedd cyfrinachol i'r staff drafod eu perfformiad, eu hanghenion hyfforddi neu unrhyw bryderon gyda'u rheolwr llinell.

Rydym yn dod i'r casgliad o'n canfyddiadau fod y gwasanaeth yn monitro ac yn gwerthuso canlyniadau i breswylwyr i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u llesiant yn cael ei fonitro.

3. Gwelliannau mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

3.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal cynhwysfawr yn cael eu cwblhau sy'n adlewyrchu holl anghenion gofal yr unigolyn ac yn nodi'n eglur pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn diwallu'r anghenion hyn. Mae'n rhaid cwblhau asesiadau risg cysylltiedig hefyd. **Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ac felly bod cydymffurfiad wedi ei sicrhau.**	**15 (1)**
Dylai'r person cofrestredig sicrhau bod y cartref gofal yn cael ei redeg fel ei fod yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer gofal, triniaeth a goruchwyliaeth y defnyddwyr gwasanaeth. **Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ac felly bod cydymffurfiad wedi ei sicrhau.**	**12 (1) (a)**
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig ddangos i AGC ei fod yn rhedeg y cartref gyda gofal, cymhwysedd a sgìl digonol. **Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ac felly bod cydymffurfiad wedi ei sicrhau.**	**10 (1)**
Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'r gwaith y maent yn ei wneud. **Gwelsom yn ystod yr arolygiad hwn fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ac felly bod cydymffurfiad wedi ei sicrhau.**	**18 (1) (c) (i)**

3.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni wnaed unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.

4. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd â phwyslais penodol gennym ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn y cartref ar 15 Mehefin 2018 rhwng 10am a 2.15pm i brofi cydymffurfiad â'r rheoliadau.

Defnyddiwyd y wybodaeth a'r dulliau canlynol gennym i lunio ein hadroddiad:

- Arsylwi arfer gofal a threfnau beunyddiol yn y cartref
- Cawsom sgyrsiau gyda phedwar o bobl sy'n byw yn y cartref, y rheolwr penodedig a phedwar aelod o staff a oedd ar ddyletswydd
- Defnyddio'r Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI 2), sy'n galluogi arolygwyr i arsylwi a chofnodi bywyd o safbwynt preswylydd: sut y mae'n treulio ei amser, y math o gymorth y mae'n ei dderbyn, ac ansawdd rhyngweithio gydag eraill
- Edrychwyd ar amrywiaeth eang o gofnodion gennym, gan ganolbwyntio ar gofnodion gofal pedwar o bobl, rotas staff a chofnodion meddyginiaeth
- Ystyriaeth o brosesau sicrhau ansawdd y cartref

- Archwiliad gweledol o rannau o'r cartref y mae gan breswylwyr fynediad atynt.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Cartref gofal i oedolion – hŷn**
Person cofrestredig	**Resicare Ltd**
Rheolwr cofrestredig	**Ni fu rheolwr cofrestredig ers mis Mehefin 2017**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**57**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**27 Mawrth 2018**
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	**15 Mehefin 2018**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Y ddwy**
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	**Nac ydy**
Gwybodaeth ychwanegol:	